# Senedd.tv

8 Tachwedd 2017

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 27 Hydref, pan wnaethoch ofyn:

*Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech roi ffigurau gwylio Senedd.TV i mi ar gyfer pob sesiwn Cwestiynau'r Prif Weinidog o 1 Tachwedd 2016 hyd nes nawr (nid yw hyn yn cynnwys ffigyrau gwylio ar YouTube).*

Nid yw'r ffigurau gwylio sydd gennym ar gyfer Senedd.TV yn dangos yn ffigurau gwylio sesiwn Cwestiynau'r Prif Weinidog yn benodol, felly nid nid oes gennym y wybodaeth hon.  Gallwn roi ffigurau gwylio i chi ar gyfer y Cyfarfod Llawn cyfan, ond ni allwn roi ffigurau penodol ar gyfer yr eitem a nodir yn eich cais.

Cyhoeddir ffigurau gwylio blynyddol Senedd.TV yn ein Hadroddiadau Perfformiad Corfforaethol a chânt eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn.   Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF